**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**Adroddiad (SLC (3)-01-09)**

**Dyddiad: 13 Ionawr 2009**
**Amser : 8.15am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

## CYNNWYS

Cyfarfu'r pwyllgor ar 13 Ionawr 2009. Roedd yr Aelodau pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Mark Isherwood AC, Alun Davies AC, a Joyce Watson AC. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dr Dai Lloyd – roedd Janet Ryder AC yn dirprwyo ar ei ran, ac Eleanor Burnham AC – roedd Mike German AC yn dirprwyo ar ei rhan.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

**Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.**

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

**SLC222 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygiad Rhif 2) 2008**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 26 Tachwedd 2008. Fe'u gosodwyd ar 28 Tachwedd 2008. Yn dod i rym ar 1 Ionawr 2009.

**SLC223 - Rheoliadau Trefniadau Cydlafurio (Ysgolion a Gynhelir a Chyrff Addysg Bellach) (Cymru) 2008**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 28 Tachwedd 2008. Fe'u gosodwyd ar 2 Rhagfyr 2008. Yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2008.

**SLC225 - Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2008**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 3 Rhagfyr 2008. Fe'u gosodwyd ar 4 Rhagfyr 2008. Yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2008.

**SLC227 – Gorchymyn Rhwydi Pysgota Berdys (Cymru) (Diwygio) 2008**
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 8 Rhagfyr 2008. Fe'i gosodwyd ar 9 Rhagfyr 2008. Yn dod i rym ar 2 Ionawr 2009.

**SLC229 – Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2008**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 9 Rhagfyr 2008. Fe'u gosodwyd ar 10 Rhagfyr 2008. Yn dod i rym ar 1 Ionawr 2009.

**SLC232 – Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) (Rhif 2) 2008**
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 15 Rhagfyr 2008. Fe'i gosodwyd ar 16 Rhagfyr 2008. Yn dod i rym ar 8 Ionawr 2009.

**Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2**

**Offerynnau sy’n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

**SLC224 – Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2008**
Y weithdrefn negyddol. Fe’i gwnaed ar 3 Rhagfyr 2008. Fe’i gosodwyd ar 4 Rhagfyr 2008. Yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2008.

**SLC226 - Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008**
Y weithdrefn negyddol. Fe’u gwnaed ar 5 Rhagfyr 2008. Fe’u gosodwyd ar 8 Rhagfyr 2008. Yn dod i rym ar yn unol â rheoliad 1.

Nodwyd bod gwallau’n parhau yn y maes hwn o is-ddeddfwriaeth a bod y Pwyllgor am ddwyn hyn i sylw Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**SLC228 - Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2008**
Y weithdrefn negyddol. Fe’u gwnaed ar 6 Rhagfyr 2008. Fe’u gosodwyd ar 9 Rhagfyr 2008.Yn dod i rym yn unol â rheoliad 3.

Penderfynodd y pwyllgor y byddai’n ystyried SLC230 - **Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2008** yn ei gyfarfod nesaf gan fod y Llywodraeth yn aros am wybodaeth gan DEFRA er mwyn gallu ymateb i’r pwyntiau a godwyd gan Gynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor o ran y Rheoliadau hyn.

**SLC230 – Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2008**
Y weithdrefn negyddol. Fe’u gwnaed ar 9 Rhagfyr 2008. Fe’u gosodwyd ar 10 Rhagfyr 2008. Yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2008.

Ceir Adroddiadau’r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar yr offerynnau statudol sy’n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) yn Atodiadau 1-3 yr Adroddiad hwn**.**

**Eitemau eraill o fusnes**

**Priodoldeb darpariaethau is-ddeddfwriaeth “Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) 200-”: adroddiad drafft cytûn.**

Ar ôl ystyried ‘Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) 200-‘ yn y cyfarfodydd blaenorol, cytunodd y Pwyllgor yn ffurfiol ar ei adroddiad ar y Mesur arfaethedig.

**Ystyried Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU**

O dan Reol Sefydlog 15.6 (ii) (hy caiff y Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiad ar “pa mor briodol yw darpariaethau mewn ........... Mesurau ar gyfer Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig sy’n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru”) ystyriodd yr Aelodau gynnwys rhaglen waith ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU (y Mesurau yn arbennig) a phenderfynodd graffu ar y Mesur Atodiad Ardrethi Busnes i ddechrau, gan roi sylw penodol i’r materion sy’n gysylltiedig â throsglwyddo pwerau i Weinidogion Cymru.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn gofyn i’r Llywodraeth am wybodaeth am y pwerau dirprwyedig sydd wedi’u cynnwys ym Mesurau eraill y DU sydd eisoes wedi’u cyflwyno.

**Janet Ryder AC**
**Cadeirydd dros dro y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**13 Ionawr 2009**

## Atodiad 1

**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

(SLC(3)-01-09)

**SLC224**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i’r offeryn a ganlyn.**

### Teitl: Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2008

Mae’r Gorchymyn hwn yn rhestri’r lleoedd tân sy’n esempt o dan ddarpariaethau Deddf Aer Glân 1993. Os caiff lle tân esempt ei ddefnyddio yn unol â’r amodau a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn, gellir ei ddefnyddio mewn ardaloedd rheoli mwg a mynd yn groes i ddarpariaethau Deddf Aer Glân 1993.

**Gweithdrefn:** Negyddol

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r offeryn a ganlyn o dan Reol Sefydlog 15.2(vi) (ymddengys fod y gwaith drafftio’n ddiffygiol).

Mae’r holl wallau drafftio a ganlyn yn codi yn yr eitemau a geir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn (dosbarthau ar leoedd tân sy’n esempt).

Fröling Turbomat 28, 35, 48 a 55:-

- Mae’r testun Cymraeg yn cyfeirio at Firematic Turbomat 28, 35, 48 a 55
- Ym mharagraff cyntaf amod 1, mae’r testun Saesneg yn cyfeirio at osod lle tân yn unig; mae’r testun Cymraeg yn cyfeirio at osod, cynnal a chadw. Dylid dileu’r cyfeiriadau at gynnal a chadw
- Yn ail baragraff amod 1, mae’r testun Saesneg yn cyfeirio at gynnal a chadw; mae’r testun Cymraeg yn cyfeirio at osod, cynnal a chadw. Dylid dileu’r cyfeiriad at osod.

Fröling Turbomat 85, 100 a 110:-

- Mae’r testun Cymraeg yn cyfeirio at Firematic Turbomat 85, 100 a 110
- Ym mharagraff cyntaf amod 1, mae’r testun Saesneg yn cyfeirio at osod y lle tân yn unig; mae’r testun Cymraeg yn cyfeirio at osod, cynnal a chadw. Dylid dileu’r cyfeiriadau at gynnal a chadw
- Yn ail baragraff amod 1, mae’r testun Saesneg yn cyfeirio at gynnal a chadw; mae’r testun Cymraeg yn cyfeirio at osod, cynnal a chadw. Dylid dileu’r cyfeiriad at osod.

Hoval STU 600, 800 a 1000:-

- Mae amod 1 y testun Saesneg yn gwneud gosod, cynnal a chadw yn ofynnol yn unol â’r “manufacturer’s operating instructions”. Mae’r testun Cymraeg yn cyfeirio at “gwybodaeth dechnegol a chyfarwyddiadau gosod y gwneuthurwr” (“manufacturer’s technical information and installation instructions”). Dylid cywiro hyn.

OkonFEN Pellmatic PE36, PE48, PE56, PESK36, PESK48, PESK 56:-

- Mae’r rhifau model uchod wedi eu nodi yn yr un modd ag y cânt eu nodi yn y testun Saesneg; mae’r testun Cymraeg yn cynnwys rhifau model pellach - PES36, PES48 a PES56. Dylid cywiro hyn.

Quadra-Fire 2100 Millennium Freestanding Wood Burning Stove,
Quadra-Fire Yosemite Freestanding Wood Burning Stove a
Quadra-Fire Cumberland Gap Freestanding Wood Burning Stove:-

- Ym mharagraff 2 (tanwydd i’w ddefnyddio yn y lle tân) yr amodau sy’n berthnasol i’r lleoedd tân hyn, mae’r testun Saesneg yn cyfeirio at “dry cured untreated wood”. Mae’r testun Cymraeg yn cyfeirio at “coed sydd wedi ei sychu ond heb ei drin” (“cured untreated wood”).

**Janet Ryder AC**
**Cadeirydd dros dro y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**13 Ionawr 2009**

**Mae’r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-**

**Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2008**.

Mae’r Llywodraeth wedi nodi ei bod yn derbyn y pwyntiau adrodd a bydd yn sicrhau bod y Gorchymyn yn cael ei ddiwygio ganddi cyn gynted â phosibl a sut bynnag erbyn diwedd Ebrill 2009.

Mae'r Llywodraeth yn adolygu'n gyson y rhestr o leoedd tân esempt ac mae'n llunio Gorchmynion o dan Ddeddf Aer Glân 1993 bob blwyddyn i ddiweddaru'r rhestr o leoedd tân esempt yn unol ag argymhellion a wnaed gan y Ganolfan Genedlaethol dros Dechnoleg Amgylcheddol. Cynigir gwneud Gorchymyn newydd yng ngwanwyn 2009 ac achub ar y cyfle hwn i fynd i'r afael â'r pwyntiau adrodd.

## Atodiad 2

**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

(SLC(3)-01-09)

**SLC226**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.**

**Teitl: Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân newidiadau i Reoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2008. Maent yn uwchraddio neu'n newid amryw ffioedd, grantiau a lwfansau. Maent hefyd yn cywiro gwall yn y Rheoliadau blaenorol mewn perthynas â'r pwnc hwn y daeth y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth o hyd iddo.

**Gweithdrefn: Negyddol**

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2.

Mae testun Saesneg rheoliad 7 yn darparu ar gyfer grant o €18,099, tra bod y testun Cymraeg yn darparu ar gyfer grant o €17,640. Nid yw Rheoliad 7 yn dod i rym tan 1 Medi 2009, ond mae'n hanfodol cywiro'r anghysondeb hwn cyn hynny. [Rheol Sefydlog 15.2 (vii)]

**Janet Ryder AC**
**Cadeirydd dros dro y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**13 Ionawr 2009**

**Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-**

**Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008**

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn y pwynt adrodd ac mae'n bwriadu cywiro'r gwall pan ddaw'r cyfle cyntaf i wneud hynny sy'n debygol o fod o fewn y 6 mis nesaf a beth bynnag cyn 1 Medi 2009.

# Atodiad 3

**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

## (SLC(3)-01-09)

**SLC228**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i’r offeryn a ganlyn.**

**Teitl:  Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2008**

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli’r gwahanol ddarpariaethau sy’n bodoli ar hyn o bryd mewn perthynas â dodi gwrtaith nitrogen mewn ardaloedd sy'n sensitif o ran nitradau. O ran Cymru, mae'r Rheoliadau hyn yn parhau i weithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 91/676/EEC ynghylch diogelu dyfroedd rhag llygredd gan nitradau o ffynonellau amaethyddol.

**Gweithdrefn:  Negyddol**

O dan Reol Sefydlog 15.2 (vi) bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn (drafftio diffygiol) ar y seiliau a ganlyn:-

- Mae Rheoliad 8 yn galluogi Gweinidogion Cymru i benodi person y gellir gwneud cais iddo gan berchennog neu feddiannydd daliad yn erbyn penderfyniad un o Weinidogion Cymru i ddynodi daliad yn barth perygl nitradau. Mae Rheoliad 9(2) yn darparu ar gyfer achosion cyfreithiol gerbron y person penodedig. O gofio bod darpariaeth yn cael ei wneud ar gyfer y person penodedig i gynnal gwrandawiad llafar a rhoi gwybod am ganlyniad unrhyw benderfyniad (p’un a yw hwnnw’n ganlyniad ar sail gwrandawiad llafar neu ar sail y ddogfennaeth a gyflwynwyd) nid ystyrir ei bod yn briodol, er gwaethaf yr angen i ddefnyddio iaith nad yw’n benodol o ran rhyw, i’r testun Saesneg gyfeirio at y person penodedig mewn termau niwtral, hynny yw fel “it”.  Er y gall “person” gyfeirio’n briodol at unrhyw berson cyfreithiol, gan gynnwys corff corfforaethol, o dan yr amgylchiadau, mae’n annhebygol y gellir penodi corff corfforaethol o dan reoliad 8 ac, yn yr achlysur hwn, cynigir ei bod yn briodol (er ychydig yn drwsgl) defnyddio “he or she”.
- Yn nhestun Cymraeg Rheoliad 23 mae “awr”,  lle y dylai ymddangos ar ôl “24”, ar goll.

**Janet Ryder AC**
**Cadeirydd dros dro y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**13 Ionawr 2009**

**Mae’r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-**
**Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru)**

Derbynnir y mân bwyntiau adrodd ac fe’u cywirir pan gyhoeddir y Rheoliadau.